



# Canllawiau Gwrth-fwlio Wreccsam i Rieni/Gwarcheidwaid 2015



# Bully's hurt



you don't let  
them do it.

## CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi datblygu ei Ganllawiau Gwrth-fwlio i Rieni/Gwarcheidwaid er mwyn darparu gwybodaeth berthnasol i rieni/gwarcheidwaid am y camau i'w cymryd os bydd eu plentyn yn gysylltiedig ag achosion o fwlio. Mae'r canllawiau hyn yn un o dair dogfen ganllaw ar gyfer ysgolion, disgyblion a rhieni/gwarcheidwaid ac mae'n cymryd lle'r ddogfen ganllaw sengl 'Canllawiau Strategol Gwrth-fwlio Wrecsam 2011'.

Bwlio yw un o'r prif faterion y bydd plant a phobl ifanc yn mynegi pryder amdanynt. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cadarnhau bod hawl gan bob plentyn i fod yn ddiogel wrth ddysgu, i feithrin perthnasoedd iach ac i wireddu ei botensial.

Mae angen diogelu dioddefwyr bwlio ac mae angen helpu bwliod i newid eu hymddygiad a chael cyfle i ddiwallu unrhyw anghenion emosiynol sylfaenol.

Yn ôl adroddiadau ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol mae bwlio drwy dechnoleg (seiberfwlio) ar gynydd. Mae hyn yn creu her ychwanegol y bydd yn haws ymateb iddi drwy bartneriaeth ehangach – yn enwedig drwy gydweithio â'r Heddlu .

Gall Rhieni/Gwarcheidwaid helpu ysgolion i ddelio â bwlio drwy siarad â'u plentyn am fwlio a'i effaith bosibl ar ddioddefwyr. Os yw'ch plentyn yn dioddef oherwydd bwlio, mae camau y gallwch chi eu cymryd i ddelio ag ef.

| <b>Beth yw Bwlio?</b>  | <b>Beth ddylech chi ei wneud os yw'ch plentyn yn cael ei fwlio?</b>  |
|--|--|
| <p>Mae bwlio'n digwydd os yw unigolion neu grwpiau:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• yn galw enwau ar eich plentyn</li><li>• yn ei fygwth</li><li>• yn pwysu ar eich plentyn i roi arian neu eiddo i rywun</li><li>• yn taro'ch plentyn</li><li>• yn difrodi eiddo'ch plentyn</li><li>• yn lledaenu sïon am eich plentyn neu'ch teulu</li><li>• yn tecstio neu'n defnyddio'r e-bost neu gyfryngau cymdeithasol i ysgrifennu neu ddweud pethau cas am eich plentyn (seiberfwlio)</li></ul> <p>Mae bwlio'n digwydd hefyd os yw teimladau'ch plentyn yn cael eu brifo am fod pethau'n cael eu dweud am ei gefndir ethnig, crefydd, rhywedd, rhywioldeb, anabledd, angen addysgol arbennig, ymddangosiad neu faterion sy'n ymwneud yn benodol â'ch teulu.</p> | <p>Siaradwch â staff yr ysgol am y bwlio. Y pwynt cyswllt cyntaf fydd athro/athrawes dosbarth eich plentyn. Gallwch gysylltu drwy ffonio [rhif ffôn] neu drwy adael neges yn nerbynfa'r ysgol.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Bydd o gymorth wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd os cofiwch ei bod yn bosibl nad yw'r athro'n gwybod bod eich plentyn yn cael ei fwlio neu ei fod wedi clywed disgrifiadau croes o ryw ddigwyddiad.</li><li>• Byddwch mor fanwl â phosibl am beth y mae'ch plentyn wedi dweud sydd wedi digwydd; rhowch wybod am ddyddiadau, lleoedd ac enwau disgyblion eraill a oedd yn gysylltiedig.</li><li>• Gwnewch nodyn o'r camau y mae'r ysgol am eu cymryd.</li><li>• Gofynnwch a oes rhywbeth y gallwch chi ei wneud i helpu'ch plentyn.</li><li>• Cadwch mewn cysylltiad â'r ysgol; gadewch iddyn nhw wybod os bydd pethau'n gwella neu os bydd problemau'n parhau.</li></ul> |

Gall bwlio fod yn ddifrifol iawn i'r unigolyn sy'n cael ei fwlio, a gallent ofidio cymaint nes anafu eu hunain. Os yw eich plentyn yn ymwneud â bwlio gallent fynd i helynt. Mewn rhai achosion mae bwlio yn drosedd, a gallent fynd i helynt gyda'r heddlu. Helpwch eich plentyn i ddeall bod colegau, prifysgolion a chyflogwyr yn gwirio safleoedd cyfryngau cymdeithasol megis Facebook yn rheolaidd, ac os ydynt yn ymwneud â bwlio, gallent wneud drwg i'w haddysg a'u rhagolygon am swyddi yn y dyfodol.

### **Prosiect Gwrth-fwlio Wrecsam:**

Os yw ysgol eich plentyn yn rhan o Brosiect Gwrth-fwlio Wrecsam, anogwch eich plentyn i lenwi Ffurflen Atgyfeirio Bwlio ddi-enw. Bydd hyn yn rhoi gwybod i'r ysgol fod problem heb enwi'ch plentyn er mwyn gallu cymryd camau yn erbyn y bwlio. Os nad yw ysgol eich plentyn yn rhan o'r prosiect, rhowch anogaeth iddi gymryd rhan.

### **Beth fydd yr ysgol yn ei wneud?**

Nid yw ein hysgol ni'n goddef bwlio. Dyma beth rydyn ni'n gallu ei wneud am fwlio:

- Gweithio i sicrhau diogelwch yr unigolyn sy'n cael ei fwlio
- Gweithio i atal y bwlio rhag digwydd eto
- Darparu cefnogaeth i'r unigolyn sy'n cael ei fwlio
- Cymryd camau i sicrhau bod yr unigolyn neu'r bobl sy'n bwlio'n dysgu i beidio â niweidio pobl eraill

Os bydd teuluoedd yn teimlo nad yw'r ysgol yn rhoi sylw priodol i'w pryderon, gallant ystyried cymryd y camau canlynol:

- Darllen polisi gwrth-fwlio'r ysgol i weld a yw'r gweithdrefnau a gytunwyd yn cael eu dilyn
- Trafod eu pryderon gyda rhieni eraill
- Trefnu i weld Pennaeth yr ysgol er mwyn trafod y mater a chadw cofnod o'r cyfarfod

Os na fydd yr un o'r pethau hyn yn helpu, gallwch ysgrifennu at gadeirydd y llywodraethwyr i egluro'ch pryderon a'r camau gweithredu yr ydych chi am eu gweld, ysgrifennu at Bennaeth Dysgu Gydol Oes yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, neu ysgrifennu at yr Aelod Arweiniol sy'n gyfrifol am Addysg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae enghreifftiau isod o lythyrau a allai fod o gymorth i chi os byddwch yn penderfynu dilyn y llwybr hwn:

### **Llythyrau Enghreifftiol**

Os yw'ch plentyn yn cael ei fwlio, mae'n bwysig bod y plentyn yn cadw dyddiadur, neu'ch bod chi'n cadw dyddiadur ar ei ran, ac os na fyddwch yn cael ateb i'r broblem drwy ffonio neu ymweld â'r ysgol, eich bod yn disgrifio'ch pryderon mewn llythyr.

### **Llythyr at Athro Dosbarth (neu Bennaeth Blwyddyn)**

Annwyl Ms Smith,

Pan siaradais â chi/Pan welais i chi ddoe ac egluro cymaint o ofid y mae fy merch Mary yn ei deimlo am ei bod yn cael ei bwlio gan Jane Brown, roeddech chi wedi dweud y byddech chi'n gweithio gyda'r dosbarth/yn monitro'r sefyllfa/yn siarad â rhieni Jane/yn rhoi gwybod i mi am ddatblygiadau. Mae Mary

yn gwybod bod rhaid iddi ddweud wrthyf chi os bydd yn cael unrhyw broblemau eto. A gawn ni sgwrs/cyfarfod ymhen pythefnos i adolygu'r sefyllfa?

Yn gywir,

### Llythyr at Bennaeth Ysgol

Annwyl Mr Jones,

Rwyf wedi bod yn trafod y bwlio gan Jane Brown yn erbyn fy merch Mary gyda Ms Smith. Er hynny, mae'r bwlio'n parhau. Allwch chi roi gwybod i mi beth y gallwch ei wneud i ddatrys y broblem hon a sut y bydd yn cael ei monitro? A yw'n bosibl i chi drefnu mwy o oruchwyliaeth ar yr adeg y mae'r rhan fwyaf o'r bwlio'n digwydd ar amser chwarae/ar fuarth yr ysgol/yn y coridor/yn yr ystafell newid? A fydddech chi cystal ag anfon copi o bolisi gwrth-fwlio'r ysgol ataf? Byddwch cystal â rhoi copi o'm cwyn ar ffeil Mary, yn ogystal â'ch ymateb ysgrifenedig.

Yn gywir,

**Llythyr at Gadeirydd y Llywodraethwyr** (gofynnwch i ysgrifennydd yr ysgol am ei enw ac anfonwch y llythyr i gyfeiriad yr ysgol)

Annwyl Mrs Green,

Rwyf yn amgáu copi o lythyr a anfonais at Mr Jones ar [rhowch y dyddiad]. Gwaetha'r modd, er fy mod wedi ysgrifennu at/siarad â Ms Smith, yr athrawes dosbarth/Pennaeth Blwyddyn a'r Pennaeth, mae fy merch Mary yn cael ei bwlio o hyd gan Jane Brown. Fel y byddwch yn gweld, rwyf wedi gofyn i'r Pennaeth pa strategaeth y bydd yn gallu ei chyflwyno i atal y bwlio ond nid wyf yn fodlon ar ei ymateb/mae'r bwlio wedi parhau. Byddwch cystal ag ymchwilio i'm cwyn a dweud wrthyf pa gamau y mae'r llywodraethwyr yn bwriadu eu cymryd i atal y bwlio yn erbyn fy merch. Gan nad yw'r mater hwn wedi'i ddatrys, hoffwn gael copi o gofnod ysgol Mary i weld pa gamau sydd wedi'u cymryd mewn ymateb i'm cwynion blaenorol.

Yn gywir,

**Llythyr at Bennaeth Dysgu Gydol Oes/Aelod Arweiniol Gwasanaethau Plant ac Addysg** (yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY)

Annwyl Mr Davies/Annwyl Gynghorydd Williams

Rwyf yn amgáu copïau o ohebiaeth â Phennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr [rhowch enw'r ysgol] lle mae fy merch Mary yn parhau i gael ei bwlio gan Jane Brown. Rwyf wedi gofyn pa fesurau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cyflwyno i ddelio â'r bwlio. Mae'r ymateb wedi bod yn anfodddhaol gan nad yw'r bwlio wedi stopio/nad wyf wedi cael gwybod beth mae'r ysgol yn ei wneud am y broblem. Byddwch cystal â chynnal ymchwiliad ffurfiol i'm cwyn a chyhoeddi adroddiad. Rwyf yn nodi o gofnod ysgol Mary fod achosion o fwlio wedi cael eu cofnodi/nad yw achosion o fwlio wedi cael eu cofnodi/nad yw'r ffeil yn dangos pa gamau sydd wedi'u cymryd/bod y ffeil yn dangos bod camau wedi'u cymryd ond nad oeddent yn llwyddiannus. Allwch chi ddweud wrthyf pa nifer o gwynion eraill am fwlio sydd wedi'u gwneud i'r Awdurdod Addysg Lleol ynghylch yr ysgol hon yn y 12 mis diwethaf? Hoffwn gael cymorth gan staff yr Awdurdod Addysg Lleol i sicrhau diogelwch fy merch yn yr ysgol hon.

Yn gywir,

**Dolenni Defnyddiol**

[youngwrexham.co.uk](http://youngwrexham.co.uk)

[www.kidscape.org.uk/advice/advice-for-parents-and-carers](http://www.kidscape.org.uk/advice/advice-for-parents-and-carers)

[www.bullying.co.uk](http://www.bullying.co.uk)

[www.childline.org.uk/Explore/Bullying/Pages/Bullying](http://www.childline.org.uk/Explore/Bullying/Pages/Bullying)

[www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-abuse-and-neglect/bullying-and-cyberbullying](http://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-abuse-and-neglect/bullying-and-cyberbullying)

[www.thinkuknow.net](http://www.thinkuknow.net)

DRAFT

Don't BE a Bully be a buddy

BE A  
BULLY  
YOUR PERIL

